# MOSTYN AGORED 20

## TERMAU AC AMODAU AR GYFER YMGEISIO A CHYFRANOGI

Darllenwch yr amodau canlynol ar gyfer ymgeisio os gwelwch yn dda.

Wrth gyflwyno ymgais mae'n dybiedig i chi gytuno gyda'r amodau canlynol.

## TROSOLWG

Mae MOSTYN Agored 20 yn agored i artistiaid yn gweithio mewn unrhyw gyfrwng. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar oedran na lleoliad daearyddol ar gyfer ymgeisio.

Bydd Gwobr MOSTYN Agored o £10,000 yn cael ei ddyfarnu ar y noson agoriadol, i artist unigol neu gywaith, ddewiswyd gan y detholwyr.

Bydd £1000 Gwobr y Gynulleidfa yn cael ei gyflwyno, ar ddiwedd yr arddangosfa i'r artist neu'r cywaith sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau gan y cyhoedd sy'n ymweld â'r arddangosfa.

Mae rhaid i'r delweddau gyflwynir fod o waith ym mherchnogaeth yr artist ac ar gael ar gyfer yr arddangosfa.

## PROSES GOFRESTRU AC YMGEISIO

Cwblhau ffurflen gofrestru a thalu £25 tâl cofrestru (**Dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw'r 24 Chwefror 2017**)

Unwaith i chi gofrestru byddwch yn derbyn ffurflen gais dros ebost, gyda rhif cofrestru i'w gynnwys ar bob gohebiaeth pellach **(Dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y ffurflen gais yw'r 3 Mawrth 2017**)

Ar y ffurflen gais byddwch yn rhestru teitlau gwaith, cyfrwng, dyddiad, maint, a hyd (os yn waith ffilm neu fideo).

Rydym yn gofyn i artistiaid wneud eu cais drwy ebost, gydag eithrio gwaith ffilm neu ddelweddau symudol **yn unig,** ellir eu cyflwyno ar CD/DVD Apple Mac-gytûn.

Dyfernir pob ymgais ar sail y ddogfennaeth yn unig. Ni fydd enwau yn cael eu datgelu i'r detholwyr hyd nes i'r broses ddethol orffen.

PWYSIG: Nid yw'n bosib ad-dalu'r tâl cofrestru am unrhyw reswm unwaith caiff ei yrru i ni. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwneud yn siwr bod y taliad yn cael ei yrru i'r derbyniwr cywir (manylion talu wedi'w rhestru ar y ffurflen gofrestru), ac i wneud siwr eu bod yn dychwelyd ffurflen gofrestru, ffurflen ymgeisio, a delweddau cywir a chyflawn i MOSTYN cyn y dyddiadau cau perthnasol; ni chaiff ceisiadau heb eu cwblhau'n gyflawn cyn y dyddiadau cau/ceisiadau wedi'w danfon ar ôl y dyddiadau cau eu prosesu.

### Delweddau

Dylid anfon y delweddau i'r ebost nodir wrth i chi dderbyn tystiolaeth o'ch taliad, gyda'r atodiadau canlynol:

- Mwyafswm o chwech (6) delwedd digidol, wedi eu cadw fel ffeiliau jpeg gyda chydraniad o 72 dpi, gyda phob ffeil heb fod yn fwy na 500kb.
- Ffurflen gais wedi'i chwblhau.

**PWYSIG:** Rhowch eich **enw llawn** ym **mlwch testun yr ebost**.

### Gwaith ffilm a delweddau symudol yn unig

Danfonwch CD/ DVD Apple Mac-gytûn, ynghyd â'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau at:
MOSTYN Agored 20, 12 Stryd Vaughan, Llandudno, LL30 1AB
Nodwch hyd llawn y ffilm(iau) ar y ffurflen gais.

**PWYSIG:** Nodwch eich **cyfenw** a'ch **priflythrennau** yn glir ar y CD/DVD.

Mae rhaid i bob gwaith ymgeisir fod ar gael ar gyfer yr arddangosfa gan yr artist. Gall gweithiau anfonir ar fideo neu DVD fod yn ddarn o glip fideo hirach i'w ddangos yn yr arddangosfa. Fe gedwir yr hawl gan y detholwyr i ddangos unrhyw waith fideo a/neu DVD wedi ei daflunio fel rhan o raglen wedi'i neilltuo mewn gofod arddangos ar wahan. Os yn cynnig gwaith ffilm neu fideo, ellir ond ei ddangos ar sgrîn unigol neu fel gosodwaith, mae'n rhaid nodi hyn ar y ffurflen gais.

### Hysbysiad o'r canlyniad

Bydd artistiaid sydd a gwaith wedi ei ddethol yn cael gwybod dim hwyrach na'r 24 Mawrth 2017.

## DANFON / CASGLU GWAITH DETHOL

Mae'n rhaid i waith dethol ei ddanfon i fannau casglu benwyd gan MOSTYN neu i MOSTYN ei hun. Bydd dyddiadau casglu a danfon gwaith yn cael eu pennu gan yr oriel.

Bydd y gwaith yn cael ei osod gan staff MOSTYN heb i'r oriel gytuno fod yn rhaid i'r artist fod yn bresennol i osod y gwaith eu hunain.

Yn arferol bydd yr artist yn gyfrifol am y £250 cyntaf o unrhyw gais yswiriant.

### Dyddiadau danfon a casglu gweithiau

Mae rhaid i artistiaid ddanfon eu gwaith i MOSTYN yn ystod yr wythnos 26-30 Mehefin 2017, neu i fannau casglu o gwmpas y DU ar ddyddiadau i'w cytuno. Bydd y man casglu yn cael eu cadarnhau wedi i'r gweithiau gael eu dethol.

### Cludiant gweithiau

Gall MOSTYN ond casglu neu ddanfon gwaith o/i fan casglu penodol, ac nid oes modd casglu o stiwdios, cartrefi, casgliadau neu orielau eraill. Ni ellir talu costau unrhyw gludiant negesydd i'r/o'r oriel gan MOSTYN heblaw trwy drefniant arbennig.

Mae artistiaid yn gyfrifol am gostau cludiant i'r man casglu, neu os na ddefnyddir man casglu, i ac o MOSTYN.

Os danfonir gweithiau wedi'r 30 Mehefin 2017 ni fydd modd eu cynnwys yn yr arddangosfa, os na chafwyd cytundeb arbennig gyda MOSTYN.

Mae gofod storio cyfyngedig yn MOSTYN a'r man casglu, felly mae'n amod ymgeisio fod yr artist yn gallu anfon neu gasglu eu gwaith ar y dyddiadau penodol nodwyd gan yr oriel. Mae'n flîn genym na allwn ddal gwaith nas casglwyd am fwy na 28 niwrnod wedi'r dyddiad penodol.

### Yswiriant

Bydd MOSTYN yn yswirio'r gwaith ddetholwyd ar gyfer yr arddangosfa o/i y pwynt danfon neu gasglu yn unig. Bydd pob cais am yswiriant, fodd bynnag iddo godi, yn amodol ar dâl dros ben o £250. Mae rhaid i weithiau gael eu pacio yn unol â gofynion yr oriel am gludiant diogel, a rhaid iddynt fod yn gadarn eu natur, neu fel arall ni all MOSTYN fod yn gyfrifol am unrhyw gais oherwydd colled neu ddifrod sy'n codi. Mae MOSTYN yn cadw'r hawl i beidio dangos gwaith os cafodd ei ddifrodi wrth ei gludo.

### Gwerthiant gwaith

Comisiwn MOSTYN ar unrhyw werthiant yw 35% yn cynnwys TAW. Os yw eich gwaith ar werth, gwnewch yn siwr fod eich pris gwerthu yn CYNNWYS y 35% yma.

### Gosod, teithio a chostau cysylltiol

Gall MOSTYN gyfrannu tuag at gostau gosod gosodwaith safle-benodedig, trwy drefniant gyda'r artist dethol yn unig, a lle pennir gan staff yr oriel nad ydynt yn gymmwys i osod y gwaith. Bydd penderfyniad yr oriel yn yr achosion hyn yn derfynol.